

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

31/2023

DYDDIAD CYHOEDDI: 28/03/2023



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg ail-gysylltu defnyddwyr Croeso Cymru – Adroddiad UDA (Ionawr 2023)

ISBN digidol **978-1-80535-672-1**

© Hawlfraint y Goron

This document is also available in English.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg ail-gysylltu defnyddwyr Croeso Cymru – Adroddiad UDA (Ionawr 2023)

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 31/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-ailgysylltu-defnyddwyr-croeso-cymru-19-ionawr-i-3-chwefror-2023>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Cynnwys (cliciwch ar y teitl i neidio i'r bennod)

Pennod	Rhif tudalen
<u>Cefndir a Methodoleg</u>	4
<u>Canfyddiadau allweddol</u>	11
<u>Proffil Ymholwyr Croeso Cymru</u>	17
<u>Troi ymholiadau yn ymweliadau a pherthynas â Chymru 2022</u>	21
<u>Nodweddion tripiâu 2022</u>	25
<u>Effaith Marchnata</u>	38
<u>Rhesymau dros beidio â mynd ar dripiâu i Gymru yn 2022</u>	43
<u>Bwriad i fynd ar drip yng Nghymru yn 2023</u>	47
<u>Atodiad: Arwyddocâd ystadegol</u>	52

Cefndir a Methodoleg



Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru sy'n gyfrifol am drefnu ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaeth.

Mae hwn yn adroddiad manwl a dynnwyd o arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023 ymhlith cysylltiadau defnyddwyr Croeso Cymru o UDA (cyfeirir atynt fel 'ymholwyr' drwy gydol yr adroddiad). Mae adroddiadau ar wahân ar gael i ymholwyr o'r Almaen a'r DU ac Iwerddon. Diffinnir cysylltiadau defnyddwyr fel pobl a ymgysylltodd â Croeso Cymru neu gyfathrebiadau partner, ac a roddodd eu manylion cyswllt i Croeso Cymru yn 2022. Yr amcanion ymchwil penodol oedd gwerthuso:

Tripiau a gymerwyd yn 2022

- Perthynas ymholwyr â Chymru
- Cyfran yr ymholwyr a ymwelodd â Chymru yn 2022 am wyliau
- Nodweddion tripiau yng Nghymru a phroffil ymwelwyr sy'n mynd ar wyliau
- Y profiad cyffredinol yng Nghymru a graddfeydd ar gyfer elfennau o dripiâu

Effaith marchnata

- Ymgysylltiad â chyfathrebiadau Croeso Cymru
- Dylanwad canfyddedig cyfathrebu Croeso Cymru ar benderfyniadau tripiau
- Effaith ganfyddedig marchnata Croeso Cymru

Bwriadau tripiau ar gyfer 2023

- Cyfran yr ymholwyr sy'n cynllunio trip yng Nghymru yn 2023
- Nodweddion tripiau a ragwelir ar gyfer tripiau yng Nghymru yn 2023

Methodoleg, sampl a chyfradd ymateb

Methodoleg

Cysylltodd Croeso Cymru ag ymholwyr drwy e-bost ym mis Ionawr 2023 a gofynnwyd iddynt gwblhau arolwg ar-lein 10 munud. Anfonwyd gwahoddiadau atgoffa at y rhai nad oeddent yn agor, a chynigiwyd cymhelliad raffl hefyd. Rhoddwyd 16 diwrnod i'r cyfranogwyr gwblhau'r arolwg – agorodd yr arolwg ar 19 Ionawr a chafodd ei gau ar 3 Chwefror.

Sampl a chyfradd ymateb

Deilliodd y sampl o nifer o wahanol ffynonellau, gan adlewyrchu sut y bu ymholwyr mewn cysylltiad â Croeso Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r ffynonellau sampl a nifer y cysylltiadau sydd ar gael yn ôl ffynhonnell sampl ac ar lefel gyfan - gweler y dudalen nesaf am ragor o wybodaeth am y ffynonellau hyn.

Ffynhonnell sampl	Meintiau sampl
Gwefan/e-CRM	784
Expedia	466
CYFANSWM SAMPL	1,250

O'r 1,250 o wahoddiadau a anfonwyd at ymholwyr, derbyniwyd 299 o ymatebion i'r arolwg wedi'u cwblhau, **gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 24%.**

Esboniad o ffynonellau sampl

Gwefan Croeso Cymru



Sampl o ddefnyddwyr gwefan www.croesocymru.com a gwblhaodd arolwg rhyng-gipio byr ar draws blwyddyn galendr lawn 2022 ac a oedd yn byw yn UDA.

e-CRM

Sampl o danysgrifwyr cylchlythyr Croeso Cymru yr anfonwyd cylchlythyrau Croeso Cymru atynt ac a ymgysylltodd yn weithredol â nhw yn ystod blwyddyn galendr 2022 ac a oedd yn byw yn UDA.

Expedia

Sampl o ddefnyddwyr a ddewisodd dderbyn cylchlythyrau gan Croeso Cymru wrth gymryd rhan mewn raffl ar wefan meicro 'Where Legends are Made' Expedia Cymru yn ystod Cwpan y Byd ym mlwyddyn galendr 2022 ac a oedd yn byw yn UDA.



Ystyriaethau enghreifftiol/1

Mae'n bwysig nodi nad yw'r sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn gynrychioliadol o boblogaeth UDA, nac o ymwelwyr â Chymru. Mae'r canlyniadau'n cynrychioli 'ymholwyr' sy'n ffurfio cyfran o ymwelwyr sydd â pherthynas â Croeso Cymru eisoes yn unig. Felly, dylid cadw'r ystyriaethau enghreifftiol isod mewn cof wrth ddarllen yr adroddiad:

1. **Perthynas â Chymru:** Ar y cyfan, bydd ymholwyr yn naturiol gynhesach tuag at Gymru a'i marchnata, ac mae ymgysylltu â chyfathrebiadau Croeso Cymru yn rhagofyniad i gymryd rhan yn yr arolwg.
2. **Penderfynwyr nad ydynt yn bartïon ymwelwyr llawn:** Mae ymholwyr yn fwy tebygol na'r cyffredin o fod yn 'drefnwyr gwyliau', ar ôl rhoi eu manylion ar y cam cynllunio ar gyfer trip. Gall hyn greu rhagfarnau proffil, felly mae'n bwysig nodi bod proffilio yn cyfeirio at ymholwyr nid y partïon ymwelwyr llawn.
3. **Tuedd oedran:** Mae gan y sampl hefyd ogwydd cryf tuag at grwpiau oedran hŷn. Mae gan y farchnad ehangach gydbwysedd mwy cyfartal.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio nifer o dermau i ddiffinio ymatebwyr yr arolwg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Ymholwyr Croeso Cymru:** Cyfanswm poblogaeth yr arolwg - defnyddiwyd cysylltiadau defnyddwyr Croeso Cymru ar gyfer yr arolwg hwn.
- **Ymgymmerwyr tripliau 2022 yng Nghymru:** Ymholwyr Croeso Cymru a nododd yn yr arolwg eu bod wedi cymryd gwyliau yng Nghymru yn 2022
- **Y rhai nad oeddent yn ymwelwyr â Chymru:** Ymholwyr Croeso Cymru a nododd yn yr arolwg nad oeddent wedi cymryd gwyliau yng Nghymru yn 2022
- **Bwriadwyr tripliau yng Nghymru yn 2023:** Ymholwyr Croeso Cymru a nododd yn yr arolwg eu bod yn bwriadu mynd ar wyliau yng Nghymru yn 2023

Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oed' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant yn y cartref
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant yn y cartref
- **Oedran ymddeol:** 65+ oed.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Rydym hefyd yn defnyddio 'graddau cymdeithasol' yn yr adroddiad hwn. Mae Gradd Gymdeithasol yn system ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth ac mae'n cyd-fynd yn fras ag incwm. Mae wedi cael ei ddefnyddio fel safon o fewn ymchwil marchnad ers nifer o ddegawdau i adeiladu dealltwriaeth o ymatebwyr ochr yn ochr â nifer o ffactorau eraill. Yn yr adroddiad hwn, dylid asesu gradd gymdeithasol ochr yn ochr â segmentau cyfnod bywyd, ariannol ac agwedd. Yn fras, amlinellir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

- **A Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch**
- **B Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol ganolraddol**
- **C1 Galwedigaethau goruchwyllo, clerigol a rheoli iau, gweinyddol a phroffesiynol**
- **C2 Gweithwyr llaw medrus**
- **D Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft**
- **E Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gweithwyr gradd isaf, di-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig**

Er mwyn sicrhau bod meintiau sylfaen digonol, mae taleithiau UDA wedi'u categorio i ranbarthau cydnabyddedig. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **Y De:** Alabama, Arkansas, Delaware, Florida, Georgia, Kentucky, Louisiana, Maryland, Mississippi, Gogledd Carolina, Oklahoma, De Carolina, Tennessee, Texas, Virginia, Gorllewin Virginia
- **Y Gorllewin:** Alaska, Arizona, California, Colorado, Hawaii, Idaho, Montana, Nevada, New Mexico, Oregon, Utah, Washington, Wyoming
- **Y Gogledd-ddwyrain:** Connecticut, Maine, Massachusetts, New Hampshire, New Jersey, Efrog Newydd, Pennsylvania, Rhode Island, Vermont
- **Y Canolbarth:** Illinois, Indiana, Iowa, Kansas, Michigan, Minnesota, Missouri, Nebraska, Gogledd Dakota, Ohio, De Dakota, Wisconsin

Canfyddiadau allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Proffil Ymholwyr Croeso Cymru

1. Daw ymholwyr Croeso Cymru o UDA o ystod eang o daleithiau a rhanbarthau – Efrog Newydd, Califfornia a Fflorida sydd â'r gynrychiolaeth uchaf, ond dim ond ychydig dros 1 o bob 5 ymholwr rhyngddynt – mae'r mwyafrif wedi'u gwasgaru ar draws gweddill y wlad .
2. Mae ymholwyr o UDA yn dueddol o berthyn i gyfnodau bywyd 'hŷn', gydag annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr yn cyfrif am ychydig dros 4 o bob 5 o ymholwyr. Mae hyn yn gymharol gyson ar draws rhanbarthau o UDA.
3. Mae bron i 3 o bob 5 ymholwr yn perthyn i raddau cymdeithasol AB, tra bod bron i 1 o bob 4 yn perthyn i raddau cymdeithasol C1, sy'n awgrymu incwm gwario uchel i'r rhan fwyaf o ymholwyr. Mae llai nag 1 o bob 5 yn perthyn i raddau cymdeithasol is C2DE.

Troi ymholiadau triplau yn ymweliadau a pherthynas â Chymru 2022

1. Mae tua 2 o bob 5 o ymholwyr Croeso Cymru o UDA wedi mynd ar wyliau yng Nghymru ar ryw adeg yn eu bywydau – mae 7% yn gwneud hynny'n aml, 12% weithiau, a 22% wedi gwneud hynny unwaith neu ddwy ac efallai'n gwneud hynny eto. Ymholwyr o Orllewin UDA yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod wedi cymryd gwyliau yng Nghymru.
2. Ymwelodd 1 o bob 6 o ymholwyr o UDA â Chymru am wyliau yn 2022, gan gymryd 1 trip ar gyfartaledd. Eto, trigolion Gorllewin UDA (yn enwedig Califfornia) oedd fwyaf tebygol o fod wedi mynd ar drip yn 2022.
3. Er nad yw mwyafrif yr ymholwyr o'r Unol Daleithiau erioed wedi mynd ar wyliau i Gymru, mae tua 1 o bob 4 wedi gwneud hynny o'r blaen ond heb fynd ar wyliau i Gymru yn 2022. Ymwelodd 1 o bob 20 o ymholwyr UDA â Chymru am y tro cyntaf yn 2022, sy'n awgrymu bod marchnata Croeso Cymru yn troi pobl newydd yn UDA.

Canfyddiadau allweddol (2)

Nodweddion tripiâu 2022

1. Roedd ymweliadau â Chymru gan ymgymerywyr tripiâu UDA wedi'u gwasgaru'n gymharol gyfartal rhwng mis Mai ac Awst – tua 1 o bob 5 ymweliad ym mhob un o'r misoedd hyn. Denodd mis Ebrill a Medi gyfran gymharol uchel o ymwelwyr o'r Unol Daleithiau hefyd – er eu bod yn is nag yn ystod misoedd brig yr haf – tra mai ychydig iawn a ymwelodd rhwng mis Ionawr i Mawrth a mis Hydref i Ragfyr.
2. Ar gyfartaledd roedd trip ymwelwyr o UDA yn 8.5 noson – tripiâu o 8+ noson oedd y mwyaf poblogaidd (gydag ychydig dros 2 o bob 5 yn cymryd trip o'r hyd hwn), er bod traean wedi cymryd trip o 4-7 noson a bron i 1 mewn 4 wedi cymryd trip o 1-3 noson. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod rhai o'r nosweithiau hynny wedi'u treulio y tu allan i Gymru. Ymwelodd pedair rhan o bump o ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru rywle arall yn y DU ac Iwerddon ar eu trip – roedd y mwyafrif yn ymweld â rhywle yn Lloegr, ac roedd tua thraean yn ymweld â rhywle yn yr Alban.
3. Dywedodd 60% o ymwelwyr yr Unol Daleithiau eu bod yn 'aros dros nos mewn sawl man' yng Nghymru, gan ymweld ag 1.7 rhanbarth yng Nghymru ar gyfartaledd. O'r rhain, Gogledd Cymru oedd y mwyaf poblogaidd - yr unig ranbarth yr ymwelodd mwyafrif yr ymwelwyr â hi.
4. Y brif atyniad ar gyfer trip yng Nghymru ymhlith y rhai oedd yn mynd ar drip oedd 'profi'r diwylliant a'r dreftadaeth', yn ôl 70% o ymgymerywyr tripiâu. Roedd 'cysylltiad â natur' hefyd yn gymhellant – dywedodd 53% eu bod wedi ymweld am y rheswm hwn. Roedd bron i hanner (45%) yn ymweld ar sail ymweliad blaenorol, tra bod 1 o bob 3 (32%) yn cael eu denu i ymweld gan deulu/ffrindiau sy'n byw yng Nghymru.
5. 'Rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol' oedd y gweithgaredd yr adroddodd ymwelwyr o'r Unol Daleithiau â Chymru yn 2022 eu bod yn ei wneud amlaf ar eu trip yng Nghymru, a adroddwyd gan ychydig dros 4 o bob 5 (81%). Yn ogystal â'r cymhelliad i brofi diwylliant a threftadaeth, roedd 'ymweld â safleoedd treftadaeth neu atyniadau diwylliannol', 'ymweld ag atyniadau awyr agored i ymwelwyr' a 'dysgu am hanes a diwylliant lleol' hefyd yn weithgareddau arweiniol a gynhaliwyd gan ymgymerywyr tripiâu o UDA. Roedd 'cerdded, heicio neu grwydro' hefyd yn weithgaredd poblogaidd, yn unol â'r awydd i gysylltu â byd natur.
6. 'Gwestai neu fotelau' oedd y math o lety a ffefrir ymhlith ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru o UDA (47% yn aros yn y categori hwn o lety) ac yna 'tŷ llety/gwely a brecwast' (30%). Roedd 2 o bob 5 (40%) o ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru wedi archebu eu llety 'yn uniongyrchol gyda darparwr llety' a 3 o bob 10 (30%) wedi archebu trwy 'wefan deithio' – yr opsiwn archebu mwyaf poblogaidd nesaf. Archebodd bron i 1 o bob 4 trwy 'wefan homestay'. Yn nodedig, dywedodd 3 o bob 10 (30%) o'r rhai a aeth ar drip yng Nghymru eu bod wedi dod o hyd i'w llety ar wefan Croeso Cymru.

Canfyddiadau allweddol (3)

7. Roedd bron i 9 o bob 10 (87%) o ymwelwyr â Chymru o UDA yn graddio eu profiad yng Nghymru fel 'rhagorol', gyda'r gweddill (13%) yn dweud ei fod yn 'dda'. Ni nododd unrhyw ymwelwyr fod eu profiad yn 'wael'.
8. Wrth asesu elfennau unigol o'r trip, roedd ymgymrwyr triplau yng Nghymru o UDA yn fodlon iawn ar ystod o feysydd. Roeddent yn fodlon iawn ar 'ansawdd yr amgylchedd naturiol', 'y croeso a gawsant', y 'gwasanaeth cwsmeriaid', 'ansawdd y pethau i'w gwneud' a'r 'teimlad o ddiogelwch'. Roedd y graddfeydd yn is – er eu bod yn dal yn gadarnhaol iawn – ar gyfer 'ansawdd trafndiaeth gyhoeddus' a 'glendid y strydoedd'. Mynegwyd anfodlonrwydd gryfaf ynghylch 'costau parcio ceir', 'argaeledd toiledau cyhoeddus', ac 'argaeledd trafndiaeth gyhoeddus'.

Canfyddiadau allweddol (4)

Effaith Marchnata

1. Ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi gweld neu glywed am Gymru yn 2022 'ar lafar', gyda 45% wedi gwneud hynny. Roedd tua 2 o bob 5 wedi gweld neu glywed am Gymru drwy 'hyrwyddo neu gynnwys ar wefan' (40%), 'hyrwyddo neu gynnwys gan sefydliad ar gyfryngau cymdeithasol' (38%), a 'darllen erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn' (38%).
2. O ran cyfathrebiadau penodol Croeso Cymru, gwefan Croeso Cymru oedd y sianel gyfathrebu yr oedd ymwelwyr Cymru fwyaf tebygol o fod wedi ymgysylltu ag ef yn 2022 (78%), ac yna e-gylchlythyrau (51%). Dywedodd mwy na 2 o bob 5 (43%) o ymwelwyr â Chymru ac 1 o bob 3 (33%) o ymholwyr Croeso Cymru eu bod yn dilyn Croeso Cymru ar un o'u sianeli cyfryngau cymdeithasol – Facebook oedd y mwyaf poblogaidd o'r rhain.
3. Mae'n bosibl bod cyfathrebiadau Croeso Cymru wedi cael effaith ar y penderfyniad i ymweld â Chymru yn 2022. Dywedodd 15% o'r rhai a gymerodd ran fod cyfathrebiadau Croeso Cymru yn ddylanwad mawr ar eu penderfyniad tripiâu, ac roedd dros draean naill ai'n 'ystyried Cymru ond heb wneud penderfyniad terfynol' neu 'ddim yn ystyried Cymru', ar ddiwedd 2021.
4. 'Ymwelais â mwy o leoedd nag yr oeddwn wedi bwriadu'n wreiddiol' oedd y prif ffordd yr effeithiodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar dripiâu yng Nghymru a gymerwyd yn 2022. Dilynwyd hyn gan 'Ymwelais â rhan o Gymru nad oeddwn wedi bod iddi o'r blaen' ac 'ymwelais â Chymru y tu allan i dymor yr haf'.
5. Dywedodd ychydig o dan 1 o bob 4 o fwriadwyr tripiâu yng Nghymru yn 2023 fod cyfathrebiadau Croeso Cymru eisoes wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i fynd ar eu trip yn 2023.

Rhesymau dros beidio â mynd ar dripiâu yng Nghymru yn 2022

1. O'r ymholwyr na ymwelodd â Chymru yn 2022, roedd traean (32%) yn ystyried mynd yno. Dim ond 13% o'r rhai nad oeddent yn ymweld â Chymru yn 2022 'aeth i rywle arall yn Ynysoedd Prydain neu Iwerddon yn lle hynny', Lloegr a gynhyrchodd y nifer fwyaf o ymweliadau. Roedd bron i 1 o bob 5 (17%) 'wedi mynd i rywle arall dramor' yn lle hynny, tua chwarter (26%) 'wedi archebu gwyliau yn UDA' ac ychydig llai na hanner (48%) 'heb gymryd gwyliau o gwbl'.
2. 'Amgylchiadau personol' oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2022, ac yna 'Roeddwn i'n dal yn nerfus ynglŷn â theithio oherwydd COVID-19' ac 'Allwn i ddim fforddio trip yng Nghymru'.

Canfyddiadau allweddol (5)

Bwriad i fynd ar drip yng Nghymru yn 2023

1. Mae 6% o ymholwyr Croeso Cymru o UDA eisoes wedi archebu trip yng Nghymru yn 2023, gyda 9% yn dweud y byddant yn mynd 'yn bendant' ond heb archebu. Dywedodd 18% arall eu bod yn 'debygol' o fynd. Yn nodedig efallai, mae bron i 2 o bob 5 yn rhagweld ymweld â Chymru yn 2024 neu'r tu hwnt – mwy na'r gyfran sy'n cynllunio trip yn 2023.
2. Ymholwyr Cymru 2022 sydd fwyaf tebygol o fynd ar eu trip ym mis Medi 2023 (25%). Mae Mehefin hefyd yn fis poblogaidd (22%) ac yna Mai (18%), Awst (16%) a Gorffennaf (14%).
3. Y gyrchfan fwyaf poblogaidd yng Nghymru ar gyfer trip yn 2023 yw Gogledd Cymru (53%), gyda De-ddwyrain Cymru (gan gynnwys Caerdydd) (46%) a De-orllewin Cymru (44%) yn dilyn yn agos. Mae ychydig o dan 2 o bob 5 (39%) yn bwriadu ymweld â Chanolbarth Cymru.
4. Mae bron i hanner (45%) bwriadwyr tripiau yn cynllunio ymweld â Chymru yn 2023 gyda'u partner, gyda thua chwarter yn disgwyl gwneud hynny ar eu pen eu hunain (24%) neu gyda ffrindiau (23%).


Proffil Ymholwyr Croeso Cymru




Talaith a rhanbarth preswlyio

- Mae ymholwyr Croeso Cymru o UDA yn byw mewn ystod eang o daleithiau – Efrog Newydd, California a Fflorida sydd â'r gynrychiolaeth uchaf. Mae gwasgariad cymharol gyfartal o ymholwyr ar lefel ranbarthol, er mai 'y De' sydd â'r gynrychiolaeth uchaf (sef 30%).

Ffigur 1. Tarddiad ymholiadau yn ôl talaith UDA, Canran 10 Uchaf + arall, Yr holl ymholwyr




Ffigur 2. Tarddiad ymholwyr fesul rhanbarth, Canran 10 Uchaf + arall, Yr holl ymholwyr



Cyfnod bywyd ymholwyr

- Mae'r mwyafrif helaeth o ymholwyr UDA yn cynnwys Annibynwyr hŷn (44%) ac Ymddeolwyr (38%), gyda Theuluoedd a Chyn-nythwyr yn cyfrif am lai nag 1 o bob 5 (18%) rhyngddynt.
- Mae'r darlun hwn yn gymharol gyson ar draws rhanbarthau o UDA.

Ffigur 3. Cyfnod bywyd yr ymholwyr, Canran, Yr holl ymholwyr ac yn ôl rhanbarth



Cwestiynau demograffeg


Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru ac eithrio cyfnod bywyd 'Mae'n well gen i beidio â dweud': n=290; De n=89;

Gorllewin n=76; Gogledd Ddwyrain n=66; Canolbarth gorllewin n=59

Gradd gymdeithasol ymholwyr

- Mae bron i 3 o bob 5 (59%) o ymholwyr UDA yn perthyn i raddau cymdeithasol AB, tra bod bron i 1 o bob 4 (23%) yn perthyn i radd gymdeithasol C1. Dim ond lleiafrif (18%) sy'n perthyn i raddau cymdeithasol C2DE.
- Ychydig iawn o wahaniaeth sydd ar draws rhanbarthau UDA.

Ffigur 4. Gradd gymdeithasol ymholwyr, Canran, Yr holl ymholwyr ac yn ôl rhanbarth



Cwestiynau demograffeg

Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru ac eithrio gradd gymdeithasol 'Mae'n well gen i beidio â dweud': n=263; De n=80; Gorllewin n=69; Gogledd Ddwyrain n=63; Canolbarth gorllewin n=51

**Troi ymholiadau
tripiau yn
ymweliadau a
pherthynas â
Chymru 2022**

BVA BDRC




Teyrngarwch ymweliadau â Chymru

- Mae tua 2 o bob 5 (42%) o ymholwyr Croeso Cymru o UDA wedi ymweld â Chymru am wyliau ar ryw adeg yn eu bywydau – cyfran fach (7%) yn gwneud hynny 'yn aml', tua 1 o bob 8 (12%) yn gwneud hynny 'weithiau' a bron i chwarter (22%) wedi gwneud hynny 'unwaith neu ddwywaith o'r blaen' ac 'efallai yn gwneud hynny eto'. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif erioed wedi bod i Gymru am wyliau, ond hoffent wneud hynny.
- Mae rhywfaint o amrywiad fesul rhanbarth o UDA – trigolion y 'Gorllewin' (yn enwedig Califfornia) sydd fwyaf tebygol o fod wedi cymryd gwyliau yng Nghymru ar ryw adeg.

Ffigur 5. Perthynas â Chymru, Canran, Yr holl ymholwyr ac yn ôl rhanbarth

- Rwy'n aml yn cael seibiannau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto o fewn y flwyddyn nesaf
- Rwyf weithiau'n cael seibiannau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto o fewn y ddwy flynedd nesaf
- Rwyf wedi cael seibiant byr neu wyliau yno unwaith neu ddwy o'r blaen ac efallai y gwnaf hynny eto
- Rwyf wedi cael seibiant byr neu wyliau yno o'r blaen, ond mae'n annhebygol y gwnaf hynny eto
- Dydw i erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr yno ond hoffwn i
- Nid wyf erioed wedi cael seibiant byr neu wyliau yno o'r blaen, ac nid yw'n debygol y gwnaf hynny eto
- Dydw i ddim yn gwybod




A1. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â Chymru? Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=299; De n=89; Gorllewin n=76; Gogledd Ddwyrain n=71; Canolbarth gorllewin n=59



Gwyliau a gymerwyd yng Nghymru yn 2022

- Aeth 1 o bob 6 (16%) o ymholwyr Croeso Cymru o UDA ar wyliau yng Nghymru yn 2022 – yr uchaf ymhlith trigolion Gorllewin UDA (eto yn cael ei yrru gan Califfornia). Nifer y triplau a gymerwyd gan ymwelwyr yng Nghymru ar gyfartaledd oedd 1.

Ffigur 6. Pa un a gymerwyd gwyliau yng Nghymru yn 2022, Cyfartaledd a Chanran, Yr holl ymholwyr ac yn ôl rhanbarth




A2a. Wnaethoch chi gymryd gwyliau yng Nghymru yn 2022? Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=299; De n=89; Gorllewin n=76; Gogledd Ddwyrain n=71; Canolbarth gorllewin n=59. A3. Sawl gwyliau wnaethoch chi eu cymryd yng Nghymru yn 2022? Sylfaen: Holl ymgymerydd tripiau yng Nghymru yn 2022 n=47 * *Meintiau sylfaen isel, i'w drin â gofal

Pryd y cymerwyd gwylliau yng Nghymru

- Nid yw'r mwyafrif (60%) o ymholwyr o'r Unol Daleithiau erioed wedi cymryd gwylliau yng Nghymru, tra bod tua 1 o bob 4 (24%) heb fynd ar wyliau i Gymru yn 2022 ond wedi gwneud hynny o'r blaen. Roedd tua thraean o ymwelwyr â Chymru yn 2022 yn ymweld am y tro cyntaf, gyda'r gweddill wedi aros yno yn 2022 a chyn hynny.
- Trigolion Gorllewin a Gogledd Ddwyrain UDA oedd fwyaf tebygol o fod yn ymweld â Chymru am y tro cyntaf yn 2022.

Ffigur 7. Pryd y cymerwyd gwylliau yng Nghymru, Canran, Yr holl ymholwyr ac yn ôl rhanbarth



A2a. A wnaethoch chi gymryd gwylliau yng Nghymru yn 2022? A2b. Ydych chi wedi cymryd gwylliau yng Nghymru cyn 2022? Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=299; De n=89; Gorllewin n=76; Gogledd Ddwyrain n=71; Canolbarth gorllewin n=59


Nodweddion tripiâu 2022



Mis y cymerwyd trip yng Nghymru yn 2022

- Roedd ymweliadau â Chymru gan bobl sy'n cymryd tripiâu o UDA wedi'u gwasgaru'n gymharol gyfartal rhwng mis Mai ac Awst – tua 1 o bob 5 ymweliad ym mhob un o'r misoedd hyn. Denodd mis Ebrill a Medi gyfran gymharol uchel o ymwelwyr o'r Unol Daleithiau hefyd – er eu bod yn is nag yn ystod misoedd prysuraf yr haf – tra mai ychydig iawn a ymwelodd rhwng mis Ionawr a Mawrth ac o fis Hydref i Rhagfyr.

Ffigur 8. Mis y cymerwyd trip yng Nghymru yn 2022, Canran, Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




A4. Ac ym mha fisoedd o'r flwyddyn wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau yn 2022?
Sylfaen: Holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal


Nifer y nosweithiau ar drip yng Nghymru

- Treuliodd ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru o'r Unol Daleithiau 8.5 noson oddi cartref ar gyfartaledd ar eu trip. Arhosodd bron i 1 o bob 4 (23%) am 1-3 noson, arhosodd ychydig dros 1 o bob 3 (34%) am 4-7 noson, ac arhosodd ychydig dros 2 o bob 5 am 8+ noson.
- Ar gyfartaledd, roedd 2.4 o oedolion fesul parti trip ymhlith ymgymmerwyr tripiâu UDA.

Ffigur 9. Hyd tripiâu arhosiad dros nos yng Nghymru, Canran, Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




Ffigur 10. Cyfartaledd hyd tripiâu yng Nghymru arhosiad dros nos, Cyfartaledd, Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




Ymweliadau mewn mannau eraill yn y DU neu Iwerddon

- Arhosodd 4 o bob 5 (79%) o ymgymrwyr triplau yng Nghymru a oedd yn cymryd triplau o UDA mewn mannau eraill yn y DU ac Iwerddon yn ogystal ag aros yng Nghymru. Arhosodd ychydig yn fwy o ymgymrwyr triplau mewn mannau eraill yn y DU ac Iwerddon cyn iddynt ymweld â Chymru, yn hytrach nag ar ôl hynny. Arhosodd mwyafrif helaeth (86%) yr unigolion hyn yn Lloegr, er bod tua 1 o bob 3 (32%) wedi aros yn yr Alban.

Ffigur 11. Ymweliadau mewn mannau eraill yn y DU neu Iwerddon fel rhan o'r un trip, Canran, Yr holl ymgymrwyr triplau yng Nghymru yn 2022




Ffigur 12. Ble arall yr arhoswyd yn y DU neu Iwerddon, Canran, Yr holl ymgymrwyr triplau yng Nghymru a arhosodd yn rhywle arall




A8. A wnaethoch chi aros dros nos mewn unrhyw rannau eraill o'r DU neu Iwerddon fel rhan o'r un trip hwn? Sylfaen: Yr holl ymgymrwyr triplau yng Nghymru n=47* A8b. Ble arall, os yn unrhyw le, yn y DU ac Iwerddon wnaethoch chi aros dros nos ar y trip hwn? Sylfaen: Yr holl ymgymrwyr triplau yng Nghymru yn 2022 a arhosodd yn rhywle arall n=37* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Ble yr arhoswyd yng Nghymru yn ystod y trip yn 2022

- Gogledd Cymru oedd y rhanbarth o Gymru a ddenodd y nifer uchaf o ymweliadau dros nos gan ymgymerwyr tripiâu o'r Unol Daleithiau, gyda bron i 3 o bob 5 (57%) yn aros yno, ac yna De-orllewin Cymru (43%).
- Arhosodd 2 o bob 5 (40%) o ymwelwyr dros nos â Chymru o UDA mewn un lleoliad ar eu trip, gyda 3 o bob 5 (60%) yn aros dros nos mewn sawl man.



Ffigur 13. Math o trip a gymerwyd ar drip yng Nghymru, Canran, Yr holl ymgymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022



A12. Ble yng Nghymru wnaethoch chi aros dros nos ar y trip hwn yn/ym [MIS]? A13. Pa un o'r isod sy'n disgrifio orau eich trip yng Nghymru yn/ym [MIS]? Sylfaen: Yr holl ymgymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Rhesymau dros ddewis Cymru fel cyrchfan yn 2022

- Crybwyllwyd nifer o gymhellion gan ymwelwyr o UDA dros ddewis Cymru fel cyrchfan gwyliau – dywedodd 7 o bob 10 (70%) eu bod wedi mynd 'i brofi'r diwylliant a'r dreftadaeth', ac ychydig dros hanner (53%) oherwydd eu bod am 'gysylltu gyda natur/bod yn yr awyr agored'. Roedd bron i hanner (45%) yn ymweld ar sail ymweliad blaenorol, tra bod 1 o bob 3 (32%) yn cael eu denu gan deulu/ffrindiau sy'n byw yng Nghymru.
- Darparwyd ystod o resymau eraill, er bod cyfran lai o ymwelwyr. Roedd bron 1 o bob 4 (23%) yn nodi 'antur neu wyliau egniol' ac er mwyn 'diflannu o'r cyfan a chael seibiant', a dywedodd 1 o bob 5 (19%) eu bod eisiau 'mynd i rywle gyda bwyd a diod gwych'.

Ffigur 14. Rhesymau dros ddewis Cymru fel cyrchfan, Canran, Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru 2022




A7. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol oedd y prif ffactorau a barodd ichi ddewis Cymru fel cyrchfan ar gyfer y gwyliau hwn yn/ym [MIS]? Sylfaen: Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Ymddygiad tripiâu ar drip yng Nghymru yn 2022 – Yr 11 Uchaf

- ‘Rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’ oedd y gweithgaredd yr adroddodd ymwelwyr â Chymru o’r Unol Daleithiau yn 2022 eu bod yn ei wneud amlaf ar eu trip yng Nghymru, a adroddwyd gan ychydig dros 4 o bob 5 (81%). Yn ogystal â chymhelliant ‘i brofi diwylliant a threftadaeth’, roedd ‘ymweld â safleoedd treftadaeth neu atyniadau diwylliannol’, ‘ymweld ag atyniadau ymwelwyr awyr agored’ a ‘dysgu am hanes a diwylliant lleol’ hefyd yn weithgareddau arweiniol a gynhaliwyd gan ymwelwyr o’r Unol Daleithiau.
- Roedd gweithgareddau eraill a oedd yn ymgysylltu llawer yn cynnwys ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ‘archwilio mannau golygfaol yn y car’ ac ‘ymweld â ffrindiau neu deulu’.

Ffigur 15. Gweithgareddau a gynhaliwyd ar drip yng Nghymru, Canran, Yr 11 Uchaf, Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




A14. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol wnaethoch chi ar y trip hwn yng Nghymru yn/ym [MIS]?
Sylfaen: Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Ymddygiad tripiâu ar drip yng Nghymru – Y 10 Isaf

- Cynhaliwyd ystod o weithgareddau eraill gan gyfran fwy arbenigol o ymwelwyr Cymru. Er enghraifft, ymgwymerodd bron i 1 o bob 5 â 'gweithgareddau creadigol neu artistig', ac ymwelodd 1 o bob 7 â 'lleoliadau a gafodd sylw mewn teledu, ffilm neu lenyddiaeth'.

Ffigur 16. Gweithgareddau a gynhaliwyd ar dripiâu yng Nghymru, Canran, Y 10 Isaf, Yr holl ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




A14. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol wnaethoch chi ar y trip hwn yng Nghymru yn/ym [MIS]?
Sylfaen: Yr holl ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Llety yr arhoswyd ynddo yn ystod trip yng Nghymru yn 2022

- ‘Gwestai neu fotelau’ oedd y math o lety a ffefrir ymhlith ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 (47% yn aros yn y categori hwn) ac yna ‘tai llety/Gwely a Brecwast’ (30%). Dewiswyd amrywiaeth o fathau eraill o lety hefyd, gan gynnwys ‘cartref ffrindiau’ neu berthnasau’ (26%) a ‘tŷ/bwthyn/caban ar rent’ (11%).

Ffigur 17. Llety yr arhoswyd ynddo yn ystod trip yng Nghymru, Canran, Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




A11. Pa fath/au o lety wnaethoch chi aros ynddo/ynddynt yn ystod eich trip yn/ym [MIS] yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal
Mae'r holl ymatebion o dan 3% wedi'u cyfuno i 'arall'.


Sut yr archebwyd llety ar gyfer trip yng Nghymru yn 2022

- Archebodd 2 o bob 5 (40%) o ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru o UDA eu llety 'yn uniongyrchol gyda darparwr llety' ac archebodd 3 o bob 10 (30%) drwy 'wefan deithio' – yr opsiwn archebu mwyaf poblogaidd nesaf. Ychydig llai na chwarter (23%) a archebodd drwy 'wefan homestay'.
- Yn nodedig, dywedodd 3 o bob 10 (30%) o'r rhai a aeth ar drip yng Nghymru eu bod wedi dod o hyd i'w llety ar wefan Croeso Cymru.

Ffigur 18. Sut yr archebwyd llety ar gyfer trip yng Nghymru, Canran, Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022



Ffigur 19. Pa un a ddaethpwyd o hyd i lety ar wefan Croeso Cymru, Canran, Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




A9. Sut wnaethoch chi archebu eich llety ar gyfer y trip hwn yng Nghymru? A10. A wnaethoch chi ddod o hyd i wybodaeth neu fanylion cyswllt ar gyfer y llety yr arhosoch ynddo ar wefan Croeso Cymru? Sylfaen: Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Graddfa profiad aros yng Nghymru

- Dywedodd bron i 9 o bob 10 (87%) o ymwelwyr â Chymru o'r Unol Daleithiau fod eu profiad yng Nghymru yn 'rhagorol', gyda'r gweddill (13%) yn graddio eu profiad yn 'dda'. Ni nododd unrhyw ymwelwyr fod eu profiad yn 'wael'.


Ffigur 20. Graddfa profiad aros yng Nghymru, Canran, Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022



Boddhad gyda gwahanol elfennau o'r profiad yng Nghymru

- Wrth asesu elfennau unigol o'r trip, roedd ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru o UDA yn fodlon iawn ar ystod o feysydd. Roeddent yn fodlon iawn ar 'ansawdd yr amgylchedd naturiol', 'y croeso a gawsant', y 'gwasanaeth cwsmeriaid', 'ansawdd y pethau i'w gwneud' a'r 'teimlad o ddiogelwch'. Roedd y graddfeydd yn is – er eu bod yn dal yn gadarnhaol iawn – ar gyfer 'ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus' a 'glendid y strydoedd'.

Ffigur 21. Boddhad gyda gwahanol elfennau o brofiad ymweliad â Chymru, Canran, Y 12 Uchaf, Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




A16/17. Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich trip yng Nghymru yn/ym [MIS]? Sylfaen: Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Meintiau sylfaen isel ar draws pob datganiad, i'w drin â gofal. Ymatebion Amherthnasol wedi'u dileu. 'Yn gyfeillgar i anifeiliaid anwes' a 'hygyrchedd i bobl ag anabledd/salwch hirdymor' wedi'u dileu oherwydd meintiau sylfaen bach.

Boddhad gyda gwahanol elfennau o'r profiad yng Nghymru

- Er bod pob maes wedi'i raddio'n gadarnhaol gan y mwyafrif, mynegwyd yr anfonlonrwydd mwyaf am 'gost parcio ceir', 'argaeledd toiledau cyhoeddus', ac 'argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus'.

Ffigur 22. Boddhad gyda gwahanol elfennau o brofiad ymweliad â Chymru, Canran, Y 12 Isaf, Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022



A16/17. Pa mor fodlon neu anfonlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich trip yng Nghymru yn/ym [MIS]? Sylfaen: Yr holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Meintiau sylfaen isel ar draws pob datganiad, i'w drin â gofal. Ymatebion Amherthnasol wedi'u dileu. 'Yn gyfeillgar i anifeiliaid anwes' a 'hygyrchedd i bobl ag anabledd/salwch hirdymor' wedi'u dileu oherwydd meintiau sylfaen bach.


Effaith Marchnata



Ffyrdd y gwelwyd neu y clywyd am Gymru yn 2022

- Ymgymmerwyr triapiau yng Nghymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi gweld neu glywed am Gymru yn 2022 'ar lafar', gyda 45% wedi gwneud hynny. Roedd tua 2 o bob 5 wedi gweld neu glywed am Gymru drwy 'hyrwyddo neu gynnwys ar wefan' (40%), 'hyrwyddo neu gynnwys gan sefydliad ar gyfryngau cymdeithasol' (38%), a 'darllen erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn' (38%). Clywodd ymgymmerwyr triapiau yng Nghymru hefyd am Gymru drwy amrywiaeth o ffynonellau eraill – er enghraifft, dywedodd bron i 1 o bob 5 eu bod wedi gweld 'hysbyseb neu daflen wedi'i hargraffu' (17%) a 'gwybodaeth a ddarparwyd gan gwmni teithio neu drefnydd teithiau' (15%).

Ffigur 23. Ffyrdd y gwelwyd neu a glywyd am Gymru yn 2022, Canran, Yr holl ymgymmerwyr triapiau yn 2022




A18. Gan feddwl am farchnata a chyfathrebu pa rai, os o gwbl, o'r canlynol a welsoch neu a glywsoch am Gymru yn ystod 2022? Sylfaen: Yr holl ymgymmerwyr triapiau yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Ymgysylltu â marchnata a chyfathrebu Croeso Cymru

- Gwefan Croeso Cymru oedd y sianel gyfathrebu yr oedd ymwelwyr Cymru fwyaf tebygol o fod wedi ymgysylltu ag ef yn 2022 (78%), ac yna e-gylchlythyrau (51%). Dywedodd mwy na 2 o bob 5 (43%) o ymwelwyr â Chymru ac 1 o bob 3 (33%) o ymholwyr Croeso Cymru eu bod yn dilyn Croeso Cymru ar un o'u sianeli cyfryngau cymdeithasol – Facebook oedd y mwyaf poblogaidd o'r rhain.

Ffigur 24. Ymwneud â marchnata a chyfathrebu Croeso Cymru, Canran, Yr holl ymholwyr




A19. Wrth feddwl am yr holl gyswllt a gawsoch gyda Croeso Cymru yn 2022, pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi?
Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=299; Holl ymgymmerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Meintiau sylfaen isel, i'w drin â gofal


Dylanwad cyfathrebu Croeso Cymru

- Dywedodd 15% o ymwelwyr â Chymru fod cyfathrebiadau Croeso Cymru yn ddylanwad mawr (4-5 allan o 5) ar eu penderfyniad i gymryd eu gwyliau yng Nghymru.
- Erbyn diwedd 2021, roedd 3 o bob 5 (60%) o ymgymerwyr triplau Croeso Cymru eisoes wedi penderfynu cymryd gwyliau yng Nghymru yn 2022. Fodd bynnag, roedd dros draean naill ai'n 'ystyried Cymru ond heb wneud penderfyniad terfynol' neu' ddim yn ystyried Cymru', sy'n dangos dylanwad cyfathrebu Croeso Cymru wrth yrru ymweliad.

Ffigur 25. Dylanwad cyfathrebiadau Croeso Cymru ar benderfyniad trip, Canran, Yr holl ymgymerwyr triplau yng Nghymru yn 2022



Ffigur 26. Meddylfryd ynghylch ymweld â Chymru ar ddiwedd 2021, Canran, Yr holl ymgymerwyr triplau yng Nghymru yn 2022




A22. Pa ddylanwad, os o gwbl, a gafodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich penderfyniad i gymryd eich gwyliau?
A24. Yn olaf yn yr adran hon, gan feddwl yn ôl at ddiwedd 2021, pa un o'r datganiadau hyn sy'n disgrifio orau eich cynlluniau ar y pryd i ymweld â Chymru yn 2022? Sylfaen: Holl ymgymerwyr triplau yng Nghymru 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i'w drin â gofal

Sut yr effeithiodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar drip

- ‘Ymwelais â mwy o leoedd nag yr oeddwn wedi’i fwriadu’n wreiddiol’ oedd y brif ffordd yr effeithiodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar dripiâu yng Nghymru a gymerwyd yn 2022 (34%). Dilynwyd hyn yn agos gan ‘Ymwelais â rhan o Gymru nad oeddwn wedi bod iddi o’r blaen’ (30%).
- Effeithiwyd ar ychydig llai nag 1 o bob 5 (17%) gan gyfathrebiadau Croeso Cymru i ymweld â Chymru y tu allan i dymor yr haf neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol nag yr oeddent wedi’u hystyried yn flaenorol. Gwariodd tua 1 o bob 10 fwy o arian nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Ffigur 27. Ymgysylltiad â marchnata a chyfathrebu Croeso Cymru, Canran, Yr holl ymgymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022



A23. Ym mha rai, os o gwbl, o’r ffyrdd hyn yr effeithiodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich trip yn/ym [MIS] i Gymru yn eich barn chi?

Sylfaen: Yr holl ymgymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=47* *Maint sylfaen isel, i’w drin â gofal


**Rhesymau dros
beidio â mynd ar
dripiâu yng Nghymru
yn 2022**




Ystyriaeth o Gymru ymhlith y rhai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru

- O'r ymholwyr na ymwelodd â Chymru yn 2022, roedd ychydig llai na thraean (32%) yn ystyried mynd yno.
- Yn lle hynny, aeth bron i 1 o bob 5 (17%) o'r rhai nad oeddent yn ymweld â Chymru yn 2022 'i rywle arall dramor'. Roedd tua chwarter (26%) wedi 'archebu gwyliau yn UDA' ac ychydig llai na hanner (48%) 'heb gymryd gwyliau o gwbl'.

Ffigur 28. Bwriadau ymweld â Chymru gan y rhai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru, Canran, Yr holl rai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru



Ffigur 29. Bwriadau ymweld â chyrchfannau eraill gan y rhai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru, Canran, Yr holl rai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru




B1. Soniasoch na wnaethoch gymryd gwyliau yng Nghymru yn ystod 2022. A oeddech yn ystyried trip yng Nghymru yn 2022 ar unrhyw adeg? B2. Aethoch chi i rywle arall yn lle Cymru neu oni wnaethoch chi gymryd gwyliau o gwbl?

Sylfaen: Yr holl rai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru n=252

Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2022

- ‘Amgylchiadau personol’ oedd y rheswm a adroddwyd amlaf dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2022, gyda dros draean o’r rhai nad oeddent yn ymweld (37%) yn nodi hyn. Dywedodd tua chwarter eu bod ‘dal yn nerfus am deithio oherwydd COVID-19 (27%)’ neu ‘yn methu fforddio trip yng Nghymru’ (24%). Dywedodd 15% nad oeddent wedi ymweld â Chymru yn 2022 oherwydd ‘gwyliau blynyddol cyfyngedig/yn methu â chymryd amser i ffwrdd o’r gwaith’.

Ffigur 30. Rheswm dros beidio ag ymweld â Chymru ar gyfer trip dros nos yn 2022, Canran Y 10 Uchaf, Yr holl rai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru




B4. Beth yw'r rhesymau pam na wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau yn 2022?
Sylfaen: Yr holl rai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru n=252

Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2022

- Cyfeiriodd nifer fach o ymholwyr o'r Unol Daleithiau hefyd at resymau eraill dros beidio ag ymweld â Chymru, gan gynnwys 'roedd cynnig arbennig neu becyn yn rhywle arall yn fwy ffafriol' (4%) a 'Dwi erioed wedi meddwl am Gymru fel cyrchfan gwyliau' (4%).

Ffigur 31. Rheswm dros beidio ag ymweld â Chymru ar gyfer trip dros nos yn 2022, Canran, Y 10 Isaf, Yr holl rai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru



B4. Beth yw'r rhesymau pam na wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau yn 2022?
Sylfaen: Yr holl rai nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru n=252


**Bwriad i fynd ar
drip yng Nghymru
yn 2023**



Bwriad trip dros nos yng Nghymru yn 2023 a thu hwnt

- Mae 6% o ymholwyr Croeso Cymru o UDA eisoes wedi archebu trip yng Nghymru yn 2023, gyda 9% yn dweud y byddant yn mynd 'yn bendant' yn gwneud hynny ond heb archebu. Dywedodd 18% arall eu bod yn 'debygol' o fynd. Yn nodedig efallai, mae bron i 2 o bob 5 yn rhagweld y byddant yn ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi hynny.
- Er bod Gorllewin UDA wedi mynegeo'r uchaf ar gyfer tripiâu a gymerwyd yn 2022, ymholwyr o Dde'r Unol Daleithiau sydd fwyaf tebygol o ddangos bwriad i ymweld â Chymru am wyliau yn 2023.

Ffigur 32. Bwriad ymweliad â Chymru yn 2023, Canran, Yr holl ymholwyr




B5. Ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru am wyliau yn 2023? Sylfaen: Holl ymholwyr Croeso Cymru n=299
De n=89; Gorllewin n=76; Gogledd Ddwyrain n=66; Canolbarth gorllewin n=59. Sylwer: ymhlith holl ymholwyr Croeso Cymru, mae 'byth' yn is na 0.5% ar lefel gyffredinol felly ni chaiff ei ddangos. Ar gyfer pob rhanbarth heblaw y 'De', y gyfran sy'n nodi 'byth' yw 0%

Mis y trip arfaethedig yng Nghymru yn 2023

- Ymholwyr Cymru 2022 sydd fwyaf tebygol o fynd ar eu trip ym mis Medi 2023 (25%). Mae mis Mehefin hefyd yn fis poblogaidd (22%) ac yna mis Mai (18%), Awst (16%) a Gorffennaf (14%).
- Mae ymholwyr UDA yn dangos llai o ddiddordeb yn y misoedd allfrig o Ionawr i Ebrill a Thachwedd i Rhagfyr.


Ffigur 33. Mis y trip arfaethedig yng Nghymru yn 2023, Canran, Yr holl fwriadwyr tripiau yng Nghymru yn 2023




Cyrchfan disgwyliedig a chyfansoddiad parti ymwelwyr ar gyfer trip yng Nghymru yn 2023

- Y gyrchfan fwyaf poblogaidd yng Nghymru ar gyfer trip yn 2023 yw Gogledd Cymru (53%), gyda De-ddwyrain Cymru (gan gynnwys Caerdydd) (46%) a De-orllewin Cymru (44%) yn dilyn yn agos. Mae ychydig o dan 2 o bob 5 (39%) yn bwriadu ymweld â Chanolbarth Cymru.
- Mae bron i hanner (45%) bwriadwyr tripiâu 2023 yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2023 gyda'u partner, gyda thua chwarter yn disgwyl gwneud hynny ar eu pen eu hunain (24%) neu gyda ffrindiau (23%).

Ffigur 34. Cyrchfan y trip arfaethedig yng Nghymru yn 2023, Canran, Yr holl fwriadwyr tripiâu yng Nghymru yn 2023



Ffigur 35. Cyfansoddiad partïon ymwelwyr ar gyfer trip yng Nghymru yn 2023, Canran, Yr holl fwriadwyr tripiâu yng Nghymru yn 2023




B8. Pa rai o'r ardaloedd hyn ydych chi'n bwriadu ymweld â nhw ar eich gwyliau nesaf yng Nghymru yn 2023? B9. Pwy, os o gwbl, sy'n debygol o ddod gyda chi ar eich gwyliau nesaf yng Nghymru? Sylfaen: Yr holl fwriadwyr tripiâu yng Nghymru yn 2023 n=99

Dylanwad cyfathrebiadau Croeso Cymru ar benderfyniad trip yn 2023

- Mae ychydig llai na chwarter (23%) o fwriadwyr tripiau yng Nghymru yn 2023 yn nodi bod cyfathrebiadau Croeso Cymru eisoes wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i fynd ar drip yn 2023. Efallai ei bod yn werth nodi bod y dylanwad ar dripiâu yn 2023 yn fwy na'r dylanwad ar dripiâu yn 2022, a allai awgrymu bod gan farchnata ar farchnad yr Unol Daleithiau gyrhaeddiad mwy hirdymor.

Ffigur 36. Dylanwad cyfathrebiadau Croeso Cymru ar benderfyniad trip, Canran, Yr holl fwriadwyr tripiau yng Nghymru yn 2023



B10. Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu 'dim dylanwad o gwbl' a 5 yn golygu 'dylanwad mawr', pa ddylanwad, os o gwbl, y mae cyfathrebiadau Croeso Cymru wedi'i gael ar eich penderfyniad i gymryd gwyliau yng Nghymru yn 2023?
Sylfaen: Holl fwriadwyr tripiau yng Nghymru yn 2023 n=99

Atodiad Arwyddocâd ystadegol



Arwyddocâd ystadegol

Mae'r tabl isod yn amlinellu dibynadwyedd ystadegol yr ymatebion i'r arolwg. Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn hollgynhwysfawr ond fe'u dewiswyd i ddangos hyder amrywiol mewn ystod o wahanol feintiau sampl.

Sylfaen	Canfyddiadau'r arolwg o...		
	5 / 95%	20 / 80%	50 / 50%
Cyfanswm y sampl (299)	+/- 2.5%	+/- 4.5%	+/- 5.7%
Ymwelwyr Cymru yn 2022 (47)	+/- 6.2%	+/- 11.4%	+/- 14.3%
Bwriadwyr Cymru yn 2023 (99)	+/- 4.3%	+/- 7.9%	+/- 9.8%